

PDZ 8. LLWYFANDIR ABERAERON:




Gilfach yr Halen i Garreg Ti-pw

CYNNWYS

	Tudalen
PDZ 8. LLWYFANDIR ABERAERON:	47
1 Disgrifiad Lleol	50
2 Prosesau'r Arfordir	51
3 Senarios Rheoli	56
4 Cymhariaeth ac Aseiad Cryno o Senarios man cychwyn.	61
5 Trafodaeth a Datblygu Polisi Manwl	66
6 Crynodeb Rheoli	68

Isgell Cynllun Rheoli Traethlin 9
Map Lleoliad Man Cychwyn
Parth Datblygu Polisi 8 - Llwynfandir Aberaeron



Parth Datblygu Polisi 8

Diffiniadau o Senarios a Ystyriwyd wrth Ddatblygu Polisi

Mae'r adran hon yn diffinio'r amrywiol senarios sy'n cael eu defnyddio o hyd wrth drafod y Parth Datblygu Polisi.

Cynnydd yn Lefel y Môr

Mae'n cael ei dderbyn bod ansicrwydd o hyd ynghylch cynnydd yn lefel y môr (SLR). Gall cymryd gwahanol senarios cynnydd yn lefel y môr effeithio ar faint unrhyw effaith neu amseriad rhai newidiadau, naill ai o ran rheoli cynaliadwy neu o ran effeithiau. Yn y drafodaeth isod o'r senarios rheoli man cychwyn a gwahanol, defnyddiwyd canllawiau DEFRA ar gynnydd yn lefel y môr yn gyffredinol. Pan fo teimlad, yn unrhyw ardal benodol, bod effaith cynnydd yn lefel y môr yn arwyddocaol ac y gallai newid cyd-destun rheoli, caiff y drafodaeth hon ei chynnal mewn blwch ar wahân, perthnasol i'r darn hwnnw o destun.

Senarios rheoli;

Senario Digyfyngiad

Dan y senario hwn, caiff ymddygiad yr arfordir ei ystyried fel pe na bai unrhyw amddiffynfeydd o waith dyn, i bob diben fel pe na baent yno mwyach yn ddirybudd. Er bod rhaid cydnabod mai senario hollol ddamcaniaethol yw hwn, mae'n rhoi gwell dealltwriaeth o sut ydym yn dylanwadu ar ymddygiad yr arfordir ac, felly, y pwysau ac effaith ehangach sy'n cael eu cyflwyno. Mae hyn yn cynorthwyo asesu'n gyntaf sut fyddai'r arfordir eisïau newid, ond hefyd mae'n cynorthwyo diffinio terfynau rhyngweithiad y dylai'r CRhT fod yn eu hystyried.

Senarios Man Cychwyn

- **Dim Ymyriad Gweithredol (NAI) – Senario 1**, lle na fyddai unrhyw waith ychwanegol i gynnal neu newid amddiffynfeydd. Ar ddiwedd eu bywyd gweddilliol, byddai adeileddau'n methu. Ni fyddai uchder amddiffynfeydd yn cael ei gynyddu i wella safonau amddiffyniad.
- **Gyda Rheoli Presennol (WPM) – Senario 2**. Mae'r senario hwn yn cymhwyso'r polisïau a bennwyd yn CRhT1 neu, pan fo hynny'n berthnasol, mae'n derbyn polisïau a ddiweddarwyd neu a eglurwyd, os gwnaed gwaith dilynol, e.e. astudiaethau neu strategaethau. Mewn llawer o fannau, nid yw'r agwedd at reolaeth a ddiffiniwyd yn CRhT1 ond yn cwmpasu cyfnod o 50 mlynedd. Os felly y mae, tybiwyd mai'r bwriad yw dal i reoli'r arfordir yn y dyfodol fel y mae heddiw. Dylid nodi nad yw WPM o angenrheidrwydd yn awgrymu Cadw'r Llinell ymhob rhan o'r parth. Mewn llawer man gall rheoli presennol fod yn Ddim Ymyriad Gweithredol neu Adlinio Rheoledig.

Nod Dim Ymyriad Gweithredol yw nodi beth sydd mewn perygl pe na bai amddiffynfeydd yn cael eu cynnal. Yn yr un modd, bwriad Gyda Rheoli Presennol yw ymchwilio sut all yr arfordir ddatblygu, gan nodi lle mae buddiannau wrth reoli fel hyn neu ble gall problemau godi yn y dyfodol.

Ar ddiwedd yr isadran hon mae crynodeb a chymhariaeth o'r perygl economaidd ar gyfer pob un o'r senarios man cychwyn, seiliedig ar ddadansoddiad MDSF a wnaed yn ystod CRhT (gan gynnwys canlyniadau astudiaethau eraill pan fo hynny'n berthnasol). Caiff y senarios man cychwyn eu hasesu hefyd o ran sut maent yn rhoi sylw i'r amcanion cyflawn ar gyfer y Parth. Y gymhariaeth hon rhwng y senarios man cychwyn sy'n paratoui'r llwyfan ar gyfer trafod senarios rheoli eraill posibl sy'n rhoi gwell sylw i bob mater. Mae'r drafodaeth hon yn yr isadran ddilynol.

Disgrifiad Lleol

Ardal Aberaeron o Gilfach yr Halen i'r de o Aberaeron i Lanrhystud sy'n ffurfio'r parth datblygu polisi hwn. Mae'r parth hwn, sy'n wynebu'r gogledd-orllewin yn gyffredinol, yn cynnwys anheddiad mawr Aberaeron sy'n bwysig yn rhanbarthol, ynghyd ag anheddau gwledig llai Aber-arth, Llan-non, Llansanffraid a Lanrhystud. Mae llawer o'r morlin yn ddiameddiffyn a'r defnydd tir cyffredinol yw amaethyddol.

Gilfach yr Halen i Dde Aberaeron

Darn o arfordir heb ei ddatblygu, gyda chlogwyni uchel cymharol feddal yw'r morlin o'r Parc Gwyliau yng Nghilfach yr Halen i'r de o harbwr Aberaeron. Rhyw 20 o gartrefi gwyliau sydd yn y parc gwyliau bach ym mhen deheuol y PDZ ac mae'n darparu ar gyfer pobl ar wyliau haf. Mae'r clogwyni rhwng y fan hon a'r harbwr yn rheoli rhywfaint ar y morlin ond maent hefyd yn darparu cyflenwad gwaddod pwysig. Ymhellach i'r gogledd o'r clogwyni, mae'r tir yn disgyn yn serth i ddyffryn Afon Aeron. Erydwyd y deunydd clai meddalach sydd i'w gael yn y dyffryn hwn a ffurfio'r traeth graean sydd i'w weld i'r de o'r dref.



Mae'r blaendraeth yn yr ardal hon yn eithaf llydan, lle mae'r dyddodion rhewlifol sad a chywasgedig gwaelodol yn ffurfio'r traeth isaf. Mae'r lan yn darparu mynediad lleol i lansio cychod ac mae maes parcio mawr ac eiddo y tu ôl i'r draethell. Ymhellach i'r tir mae'r harbwr ei hun ac, ar y llethr y tu ôl iddo, mae prif Swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion.

Aberaeron

Aberaeron yw un o'r trefi mwyaf ar hyd morlin Ceredigion, a'r anheddiad mwyaf yn y parth hwn. Darparodd ei ddatblygiad hanesyddol un o'r tirweddau trefol mwyaf arwyddocaol yng Nghymru, a fu'n gyfrifol am ddatblygu diwydiant twristiaeth ac adloniant cryf. Nid yn unig mae'n bwysig oherwydd ei arwyddocâd trefol, ond mae hefyd yn ganolfan weinyddol yr Awdurdod Lleol. Datblygodd y dref hon yn bennaf o gwmpas ei harbwr, a'r ardal isel o'i gwmpas. Mae harbwr Aberaeron yn cynnal fflyd bwysig o gychod pysgota ac angorfeydd pysgota ac adloniadol a hyn, ynghyd ag eiddo o gwmpas yr harbwr, sy'n creu ei gymeriad hanfodol. Gwnaed gwaith diweddar a chyfredol ar hyd glan Aberaeron, i'r gogledd o'r harbwr a thua'r de, yn cynnwys wynebau craig a grwynau i gynnal y traeth graean ac amddiffyn y morlin.

Aber-arth



Tua 2km i'r gogledd o Aberaeron mae pentref bach gwledig Aber-arth, yn sefyll ar yr un llwyfan glog-glai ag Aberaeron. Mae'n sefyll yn nyffryn Afon Arth ac mae grwyn preseb yn rheoli ceg yr afon. Tu ôl i'r grwyn preseb ar ochr y tir i'r afon a thu ôl i forglawdd mae gorsaf bwmpio carthion y pentref. Bu'r gymuned hon mewn bodolaeth ers goresgyniad y Normaniaid ac mae iddi arwyddocâd hanesyddol mawr. Mewn

gwirionedd mae llawer o'r pentref yn ôl o'r morlin. Mae prif ffordd yr arfordir yn rhedeg y tu cefn i'r pentref cyn codi'n serth i fyny'r llechwedd i'r gogledd.


Llan-non i Llanrhystud

Mae'r morlin yn codi'n serth o Aberarth i Lan-non gyda Chlochtyddiau Pridd serth ac yna glogwyni caletach Craig Ddu. Yna mae'r tir yn disgyn eto i fwy neu lai yr un llwyfan arfordirol isel lle mae pentrefi Llan-non, Llansanffraid a Llanrhystud. Mae'r pentrefi bach hyn yn darparu ar gyfer cymuned fwy gwledig, ac mae'r llwyfandir arfordirol gwastad yn lleoliad da i'r meysydd carafanau a safleoedd gwersylla arfordirol yn Llan-non a Llanrhystud. Mae Afonydd Cledan a Pheris yn arllwys i'r môr yn Llan-non ac Afon Wyre Fach yn Llanrhystud. Yng ngheg Afon Cledan, dyddodwyd graean afonol a'u dosbarthu ar hyd y darn hwn o arfordir i Llanrhystud. Mae'r cymunedau a phrif ffordd yr arfordir ymhell yn ôl o'r draethlin ac mae rhan fwyaf y gwastadedd arfordirol yn yr ardal hon ymhell uwchlaw perygl llifogydd.



2 Prosesau'r Arfordir

Mae'r ardal yn agored i amrywiaeth eang o gyfeiriadau tonnau o'r de-orllewin a'r gogledd-orllewin. Ffurfiwyd natur risiog y morlin hwn trwy bresenoldeb y manau rheoli rhynglanwol ar hyd yr arfordir. Yn debyg iawn i'r sarnau yn y gogledd, ond yn fyrrach, mae'r manau hyn yn tueddu i fod wedi gadael i'r arfordir ddatblygu'n gyfres o faeau grisiog bas, yn hytrach na'r bae mwy ar dro a welwyd i lawr yng Nghei Newydd. Mae'r darnau hyn o ddeunydd rhewlifol sad caletach i'w gweld yn fwyaf amlwg (o'r de i'r gogledd) yng ngogledd Aberaeron, Aber-arth, pentir Morfa Mawr, y man cryf yn Llansanffraid a cheg Afon Wyre yn Llanrhystud. Fodd bynnag, hyd yn oed rhwng y rhannau mwy amlwg mae parth rhynglanwol cymharol galed.



Mae'r glannau rhwng yr anheddau'n amrywio. Rhwng Aberaeron ac Aber-arth, ffurfiwyd y cefndraeth o raean. Rhwng Aber-arth a Llanrhystud y cefndraeth yw clogwyni clai ro isel a serth gyda thraethau gro. Rhyngddynt mae clogwyni Craig Ddu.

Ar hyd y PDZ, porthwyd y traethau gan erydiad hirdymor y clogwyni; mae driff cyfyngedig i'r ardal o'r de, ac mae hyn yn tueddu i gael ei gadw yn Nhraeth Deheuol Aberaeron, neu drwy'r ardal i'r

gogledd. Dengys natur risiog yr arfordir hwn bod y prosesau sy'n llunio'r morlin yn gynnyrch cyfeiriad cryfaf y tonnau a'r ddaear.

I'r gogledd o harbwr Aberaeron, gwnaed gwaith helaeth i amddiffyn yr arfordir, sef cyfres o rwynau a rhagfur mawr o graig. Saif y dref o flaen y fan lle byddai'r morlin naturiol yn tueddu i fod heb y llwyfan rynglanwol galed waelodol. Mae'r grwynau ar hyd traeth y gogledd wedi cynorthwyo rheoli drifft gwaddod tua'r gogledd sy'n cael ei gydnabod yn gymharol fawr. Tu hwnt i'r grwynau, fodd bynnag, mae'r traeth wedi tueddu i ailgronni



wrth i'r drifft leihau ar hyd y clogwyn i'r gogledd. Mae glan Aber-arth yn ennill gwaddod yn bennaf o'r clogwyni'n union i'r de a chaiff deunydd traeth ei gadw'n rhannol gan sefyllfa'r clogwyni i'r gogledd ychydig ymlaen, yn rhannol gan y llwyfan rynglanwol uwch yng ngheg Afon Arth ac ar hyd y cefndraeth gan y grwyn preseb a'r gyfres o rwynau a rhagfur ar hyd clogwyni deheuol y pentref. Mae'r clogwyni i'r gogledd o Aber-arth yn dal i ddarparu gwaddod ar gyfer y draethlin i'r gogledd.

I'r de o Lan-non, mae Morfa Mawr yn gweithredu fel man rheoli ar gyfer rhan hon yr arfordir. Caiff y drifft canlyniadol i'r de o Forfa Mawr ei wyrdroi tua'r de ac, o ganlyniad, mae'r 'bae' bas hwn yn gymharol sefydlog, gydag ychydig o erydiad i'r de o'r pentir.

Ffurfiodd yr arfordir rhwng Morfa Mawr a'r man cryf nesaf i'r gogledd o Lansanffraid fae bas arall lle mae Llan-non a Llansanffraid. Yn Llan-non yn arbennig mae'r erydiad yn sylweddol ac, i atal rhag colli'r Maes Carafanau a'r ffordd o flaen gwesty Plas Morfa yn ddisyfyd, adeiladwyd amddiffynfeydd preifat o bolion ffôn ar hyd y clogwyn clai isel serth. Tu hwnt i'r 'pentir' yn Llansanffraid mae bae ychydig dyfnach Llanrhystud. Ffurfiwyd y bae hwn mewn dyffryn lle mae clogwyni clai'r de'n newid yn draethlin is sy'n erydu. Datblygodd y bae tua'r tir i'r fath



raddau bod traethell amddiffyn wedi ffurfio'n naturiol ac mae'n ymddangos mai ychydig o ddrifft canlyniadol sydd yn y bae.

Ceg Afon Wyre yn Llanrhystud sy'n ffurfio'r man rheoli nesaf ar hyd yr arfordir, lle mae maes carafanau mawr. Mae ffurf y morlin yma'n dangos bod Afon Wyre wedi creu ychydig o bentir gyda deunydd a ddaliwyd yn ôl, gan ffurfio trwyn; mae'n ymddangos bod yr ardaloedd i'r gogledd ac i'r de o geg yr afon hon mewn perygl o erydiad wrth i'r clogwyni clai isel erydu tua'r tir a bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar y trwyn.

Yr hyn sydd i'w weld yma yw bod cydbwysedd y drifft gwaddod ar fin y gyllell, a bod mân amrywiad yng ngogwydd yr arfordir ac yn lefel y blaendraeth yn gallu dylanwadu'n fawr iawn ar ymddygiad y draethlin. Gyda chynnydd yn lefel y môr, bydd effaith sylweddol ar y cydbwysedd hwn. Gellid disgwyl y byddai mwy o ddrifft wrth i'r parth rhynglanwol caletach foddi mwy. Bydd erydiad yn cynyddu wrth i'r arfordir geisio addasu'n ôl i sefyllfa o gydbwysedd.

Cynnydd yn Lefel y Môr

Gyda newid cyflymach yn y cynnydd yn lefel y môr, bydd angen ystyried i ba raddau y gall yr arfordir addasu wrth geisio ailsefydlu llinell a phroffil cytbwys. Gallai hyn beri mwy o ddrifft gwahaniaethol fel bod rhai ardaloedd yn gallu erydu'n gyflymach i ddechrau, tra gallai mwy o waddod gronni mewn mannau eraill. Yna gall y broses hon wrthdroi fel bod ardaloedd o erydiad mwyaf yn amrywio dros gyfnod.

CYFRADDAU ERYDIAD MAN CYCHWYN POSIBL

Caiff gwahaniaeth ei wneud rhwng erydiad sylfaenol y draethlin a chiliad clogwyni, sy'n effeithio ar gopa clogwyni a llethrau arfordirol. Mae hyn yn cael ei nodi yn y tabl isod ynghyd ag elfennau perthnasol eraill. Wrth asesu erydiad a chiliad yn y dyfodol gwnaed lwfans am gynnydd yn lefel y môr a chaiff hyn ei drafod yn Atodiad C. Caiff hyn ei drafod hefyd yn fyr yn dilyn y tabl.





Lleoliad	Cyfradd Sylfaenol NAI (m / flwyddyn)	Nodiadau	Amrediad Erydu 100 mlynedd (m)
Gilfach yr Halen	0.04	Erydiad a chwymp clogwyni yn y cylch	15 - 40
Traeth Deheuol Aberaeron	0.2	Cyfyngwyd gan Bier yr harbwr	20 - 45
Traeth Gogleddol Aberaeron	0.4	Mae amddiffynfeydd yn dal y blaen hwn	20 - 55
Aberaeron i Aberarth	0.1	Clogwyni'n erydu'n naturiol yn agored i gynnydd yn lefel y môr	20 - 40
Aberarth	0.65	Amddiffynfeydd yn dal y llinell	40 - 100
Morfa Mawr	0.14	Clogwyni uchel gydag erydiad a methiant llethrau	30 - 70
Llan-non	0.3	Clogwyni'n erydu'n naturiol yn agored i gynnydd yn lefel y môr	30 - 100
Llansanffraid i Lanrhystud	0.25	Clogwyni'n erydu'n naturiol yn agored i gynnydd yn lefel y môr	30 - 70

Aseswyd cyfraddau sylfaenol o ddata arolygu a hanesyddol. Caiff amrediad yr erydiad all ddigwydd ei asesu fel amrywiad o'r gyfradd sylfaenol a sensitifedd yn faint all lefel y môr godi. Mae rhagor o fanylion ar gyflymder erydiad ynghyd â mapiau erydiad yn Atodiad C.

Mae hwn yn forlin erydol, ac mae'r manau cryfach wedi cynnal natur risiog yr arfordir. Daw'r cyfraddau erydu yn y tabl isod o CRhT1 ac maent yn rhagflaenu gwaith amddiffyn yr arfordir a wnaed ers hynny.

LLIFOGYDD

Dros lawer o'r PDZ hwn, bydd effeithiau cynnydd yn lefel y môr yn cael eu gwyllo'n eithaf agos mewn cymhariaeth â rhai de Ceredigion. Yn Aberaeron mae perygl presennol llifogydd i'r dref yn cael ei ddeall a'i gydnabod yn eithaf da. Fel y gwelir yn y mapiau isod, gogledd yr harbwr yw'r ardal sydd yn y perygl mwyaf.



Dan amgylchiadau presennol, diamddiffyn, byddai Pen Cei a'r eiddo ar hyd y stryd hon mewn perygl o lifogydd rheolaidd. Mae cwmpas y llif hwn yn ehangu i'r gogledd-ddwyrain dros y gwahanol senarios, maes o law'n cyfarfod llwybr llifogydd arfordirol eilaidd oherwydd tonnau'n torri drosodd ar hyd arfordir y gogledd yn y senario cynnydd o 2m yn lefel y môr. Mae'r arwynebedd mewn perygl llanwau arferol yn y dyfodol dros y senarios enwol 50 mlynedd a 100 mlynedd (0.5m ac 1m yn eu tro) yn gymharol gyfyngedig; fodd bynnag, mae'n amlwg y byddai perygl llifogydd o ran digwyddiadau mwy eithafol yn ymestyn dros arwynebedd sylweddol fwy. Gyda chynnydd o 1m yn lefel y môr gellid effeithio ar ardal eang o lan yr harbwr.

Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr

Mae'r ardal lle mae perygl llifogydd llanwol arferol yn ymatebol iawn i gyflymder cynnydd yn lefel y môr. Gyda senario cynnydd o 2m yn lefel y môr dros y 100 mlynedd nesaf, mae maint llifogydd yn sylweddol fwy, wrth i'r llifogydd arfordirol oherwydd tonnau'n torri dros yr amddiffynfeydd ddod yn broblem ac wrth i amllder perygl llifogydd gynyddu. Gellid effeithio ar yr ardal gyfan lle mae perygl llifogydd o fewn 50 i 75 mlynedd. Gyda'r senario hwn byddai'r briffordd (A487) dan ddŵr yn rheolaidd dros yr un cyfnod.


Yn Aber-arth, mae perygl llifogydd gryn dipyn yn llai nag yn Aberaeron. Gyda lefelau MHWS ar gyfer pob un o'r pedwar senario, mae cwmpas y llifogydd yn cyrraedd ychydig tua'r môr o'r eiddo arfordirol cyntaf (senario 2m). Fodd bynnag, dan amgylchiadau stormus, mae hyn ychydig yn wahanol yn y tymor hwy. Os digwydd storm 1:200

mlynedd, gyda senario 1m (100 mlynedd) o gynnydd yn lefel y môr, mae cwmpas y llifogydd yn cyrraedd heibio'r eiddo cyntaf ac yn torri ar draws rhan bengoll y ffordd at lan y môr. Gyda senario 2m, byddai storm 1:200 mlynedd yn ymestyn bron mor bell tua'r tir â phont ffordd yr A487. Rhaid nodi bod yr amgylchiadau hyn gyda morlin diamddiffyn, er bod yr amddiffynfa yng ngheg Afon Arth yn fwy o fan rheoli'r aber nag un sy'n amddiffyn yr arfordir rhag llifogydd. Lefelau dŵr llonydd yw'r rhain hefyd ac nid ydynt yn ystyried ymchwydd a thonnau storm.

Er ei fod yn is na'r clogwyni tua'r de, nid yw'r morlin i'r gogledd, gan gynnwys Llan-non, Llansanffraid a Llanrhystud, mewn perygl dybryd o lifogydd arfordirol dan amgylchiadau bob dydd ar gyfer pob un o'r pedwar senario. Fodd bynnag, mae'n ymddangos y byddai llifogydd sylweddol i'r meysydd carafanau yn Llan-non a Llanrhystud gyda senario 2m a storm 1 mewn 200 mlynedd. Y prif berygl cysylltiedig â chynnydd yn lefel y môr ar hyd y darn hwn o'r morlin yw cynnydd yng nghyflymder cilio'r clogwyni clai isel fel y trafodwyd eisoes.

AMDDIFFYNFYDD PRESENNOL

Gwnaed gwaith helaeth i amddiffyn yr arfordir i'r gogledd o Aberaeron dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn cynnwys wynebâu craig ar hyd y lan, wyth grwyn pren, un



**Traeth Gogleddol
Aberaeron**

grwyn craig a morgloddiau. Adeiladwyd yr amddiffynfeydd hyn i atal rhag erydu ochr ogleddol yr harbwr ac i warchod y dref rhag llifogydd arfordirol oherwydd tonnau'n torri drosodd yn ystod stormydd. Ar hyd y lan lle mae'r grwynau, mae maes parcio a nifer o eiddo, ynghyd â'r orsaf bwmpio carthion a phrif bibell bwmpio ar safle tirlenwi a gaewyd erbyn hyn. Y disgwyl yw y bydd y grwynau'n sefydlogi'r traeth o flaen y dref ac yn atal rhag drifft deunydd tua'r gogledd. Mae'r

harbwr ei hun yn cynnwys cyfuniad o forgloddiau concrid dur a muriau cei concrid gyda stanciau dalennog i amddiffyn yr eiddo rhag perygl llifogydd.



Aber arth

Grwynau pren a phresenoldeb Pier yr harbwr sy'n rheoli traeth deheuol Aberaeron. Mae rhai darnau mân o graig yn atal rhag erydiad y tu ôl i'r traeth.

I'r gogledd o Aberaeron mae'r morlin yn ddiamddiffyn mor bell â'r atgyfnerthu dynol yn Aber-arth. Yn Aber-arth, mae'r prif waith yn cynnwys bronglawdd rheiliau pen tarw llawn o graig arfog gyda maes grwynau pren o'i flaen a mur cynnal bach i'r gogledd o'r afon a,

thua'r de, maes grwynau gyda chraig y tu ôl iddynt.

At ei gilydd mae'r arfordir o Aber-arth i Llanrhystud yn ddiamddiffyn, heblaw amddiffynfeydd preifat lleol o flaen meysydd carafanau. Mae'r traeth cerrig crynion

llydan, sef amddiffynfa naturiol yr arfordir, yn cynorthwyo gwasgaru ynni'r tonnau wrth iddynt ddynesu; fodd bynnag mae'r morlin hwn yn erydu ar hyn o bryd.

SENARIO DIGYFYNGIAD

Yn absenoldeb amddiffynfeydd, byddai'r arfordir yn erydu'n ôl. Yr unig wahaniaethau mawr fyddai yn Aberaeron ac Aber-arth, lle mae darnau sylweddol o amddiffynfa. Yn absenoldeb pier yr harbwr byddai llawer o'r gwaddod sydd wedi cronni tua'r de'n symud yn gyflym tua'r gogledd gyda rhywfaint ohono'n troi i mewn i'r harbwr. Byddai absenoldeb amddiffynfeydd i'r gogledd o'r harbwr eto'n peri symud y draethlin yn ôl yn sylweddol, gan effeithio ar ardal eang o'r dref. Ar hyd llawer o'r lan, fodd bynnag, byddai'r arfordir yn ymddwyn fel y mae ar hyn o bryd i bob diben.

RHYNGWEITHIAD ALLWEDDOL GYDAG AMDDIFFYNFEYDD

Dim ond yn Aberaeron mae amddiffynfeydd yn effeithio'n sylweddol ar brosesau mwy. Yn Aber-arth, mae'r amddiffynfeydd yn effeithio ar sut mae ceg Afon Arth yn ymddwyn, ond nid ar brosesau'r morlin ar raddfa fwy.

3 Senarios Rheoli

3.1 Dim Ymyriad Gweithredol – Senario Man Cychwyn 1.

Byddai hyn yn ailysgogi erydu'r cefndraeth wrth golli'r draethell fawr. Wrth i lefel y môr gynyddu, byddai tonnau'n torri'n amlach dros lan y dref. Byddai'r lefelau yn yr harbwr yn cynyddu hefyd, gan beri perygl llifogydd sylweddol, yn bennaf o fewn yr harbwr, o dderbyn safon ddylunio tymor hwy'r amddiffynfa newydd ar hyd y draethlin. Gyda'r senario hwn ni fyddai unrhyw fwiad i gynyddu uchder amddiffynfeydd y dref. Erbyn y trydydd cyfnod, gallai llifogydd fod mor ddrwg fel y byddai eiddo yn rhan ogleddol y dref, ac yn arbennig ar hyd glan yr harbwr, yn cael ei adael. Yn y tymor hwy, byddai'r ardal ogleddol i'r gogledd o'r ffordd yn cael ei gadael. Byddai amddiffynfa flaen yr arfordir yn dirywio ac, yn y pen draw, byddai erydiad yn dechrau. I bob diben byddai craidd y dref ei hun yn cael ei golli.

Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr

Mae'r ardal lle mae perygl llifogydd gyda llifogydd llanwol arferol yn ddibynol iawn ar gyflymder cynnydd yn lefel y môr. Gyda senario cynnydd o 2m yn lefel y môr dros y 100 mlynedd nesaf, mae maint llifogydd gryn dipyn yn fwy a chynharach. Mae'n eithaf tebygol y byddai llawer o ganol y dref yn cael ei golli erbyn diwedd yr ail gyfnod.

Yn Aber-arth, byddai'r amddiffynfa yng ngheg Afon Arth yn methu maes o law, efallai yn ystod yr ail gyfnod. Yn yr un modd, byddai'r gwaith tua'r de'n methu yn ystod yr un cyfnod. Mae'r dref ei hun yn eithaf uchel ac, felly, byddai mwyafrif y tai'n ddiogel rhag llifogydd. Gyda methiant yr amddiffynfa tua'r de a'r grwyn asennau, byddai erydiad yn arwain at led sylweddol o dir ar y draethlin. Fodd bynnag mae'n debygol mai dim ond ychydig eiddo allai gael ei golli yn yr ardal hon. Fodd bynnag, byddai erydiad yn parhau fel y byddai eiddo ychwanegol yn cael ei golli wedyn. I bob diben, mae gan y llinell amddiffyn bresennol glustogfa cyn effeithio ar brif ran y pentref. Unwaith iddi gael ei herydu, caiff y glustog hon ei cholli a bydd erydiad dilynol yn effeithio ar fwy a mwy o eiddo.

Gallai erydiad yn dilyn methiant y grwyn preseb a'r morglawdd weithredu i ansefydlogi'r llethr arfordirol a gallai beri colli prif ffordd yr arfordir.

O'r fan hon nes cyrraedd Llanrhystud, ni fyddai'r senario dim ymyriad gweithredol yn wahanol iawn i ymddygiad presennol y morlin. Byddai'r tir yn dal i erydu a byddai'r meysydd carafanau ac eiddo ar hyd yr arfordir mewn mwy o berygl yn y tymor hwy.

3.2 Gyda Rheoli Presennol – Senario Man Cychwyn 2.

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno polisi cyfredol a dull rheoli ar gyfer y Parth.

Unedau Rheoli CRhT1			Dull Rheoli Dilydol
Rhif	Uned	Polisi	
Ceredigion			
9.1	Clogwyni Aberaeron	DN	
9.2	De Aberaeron	HTL	
10.1	Harbwr Aberaeron	HTL	
11.1	Gogledd Aberaeron	HTL	
11.2	Aber-arth	R, HTL yn lleol	
11.3	Morfa Mawr	R	
11.4	Llan-non	R/DN	
11.5	Bae Llanrhystud	R	
11.6	Gogledd Llanrhystud	DN	

Allwedd: DN – gwneud dim, HTL – Cadw'r Llinell, SHTL – Cadw'r Llinell yn Ddetholus, R – Cilio, gohiredig – polisi gohiredig yn amodol ar ragor o arolygu neu astudiaeth.

Daw'r wybodaeth a pholisi canlynol o Ddrafft CRhLID Afonydd Sir Benfro a Cheredigion.

Polisiau dewisol ar gyfer Uned Bolisi 1 – Afonydd Arfordirol Gogleddol

Uned Bolisi 1 Afonydd Arfordirol Gogleddol	Mae uned bolisi'r Afonydd Arfordirol Gogleddol yn cynnwys cyrsiau dŵr sy'n draenio arfordir Sir Benfro a Cheredigion o Abergwaun i'r de o'r Borth.
Problem / perygl:	<p>Problem: Mae amryw afonydd o bwys yn yr uned bolisi hon, gan gynnwys Afon Rheidol, Afon Clarach, Afon Ystwyth ac Afon Aeron. Prif ffynonellau llifogydd yn yr uned bolisi hon yw'r prif afonydd a gorlifo afonydd dan ddylanwad y llanw. Caiff llifogydd dŵr arwyneb a charthffosydd yn gorlifo eu dioddef yn yr uned bolisi hon hefyd, yn enwedig yn y prif gylchoedd trefol.</p> <p>Perygl presennol llifogydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Yn Aberystwyth, Aberaeron, Clarach, Bow Street, Penrhyn-coch a Llanrhystud mae crynhoad mwyafrif y perygl llifogydd. Mae 71% o'r bobl sydd mewn perygl yn yr uned bolisi gyfan yn byw yn y prif ardaloedd hyn lle mae perygl llifogydd. <p>Perygl llifogydd yn y dyfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y disgwyl yw na fydd y perygl llifogydd ar hyd a lled yr uned bolisi gyfan yn cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, newid defnydd tir na threfoli. - Mae mwyafrif y bobl ychwanegol fydd mewn perygl yn y dyfodol yn bennaf yn ardaloedd Aberystwyth ac Aberaeron lle mae perygl llifogydd, lle mae'r amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd yn annhebygol o amddiffyn digon rhag digwyddiad llifogydd 1% AEP neu uwch yn y dyfodol. - Yn ystod digwyddiad llifogydd 1% AEP mae disgwyl i'r boblogaeth sydd mewn perygl llifogydd gynyddu tua 178% ac mae disgwyl i'r eiddo preswyl a masnachol sydd mewn perygl gynyddu tua 108%. - Yr amcangyfrif yw y bydd 78% o'r iawndal llifogydd ychwanegol yn Aberystwyth ac Aberaeron. - Mae disgwyl i berygl llifogydd yn y prif ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn Aberystwyth ac Aberaeron gynyddu, gan fod yr amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd yn annhebygol o amddiffyn digon yn y dyfodol.

	<p>- Mae'n debygol y bydd dyfnder llifogydd yn cynyddu yn y dyfodol, gyda dyfnder nodweddiadol llifogydd yn ystod digwyddiad 1% yn cynyddu bron 1m o ganlyniad i gynydd yn lefel y môr yn Aberystwyth ac Aberaeron.</p>
Policy a ddewiswyd	<p>Polisi 3 – Parhau gyda chamau presennol neu wahanol i reoli perygl llifogydd ar y lefel bresennol</p>
Cyfiawnhad a pholisïau eraill a ystyriwyd	<p>Polisi 3 – byddai dewis Polisi 3 yn caniatáu adolygu ac ailflaenoriaethu'r mesurau rheoli perygl llifogydd er mwyn rhoi sylw i berygl llifogydd wrth iddo gynyddu yn y dyfodol. Yn absenoldeb amddiffynfeydd newydd neu uwch rhag llifogydd, byddai modd blaenoriaethu a phrysuero rhybudd rhag llifogydd, a byddai modd defnyddio polisi i ddargyfeirio datblygiad pellach o ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Byddai hyn yn elwa Aberystwyth ac Aberaeron yn arbennig. Mae Polisi 3 yn briodol i'r uned bolisi hon oherwydd bod perygl llifogydd ar draws yr uned bolisi gyfan yn cael ei asesu fel isel ar hyn o bryd ac nad oes disgwyl iddo gynyddu'n sylweddol yn y dyfodol. Mae mwyafrif y cynnydd mewn perygl llifogydd (tua 78%) yn crynhoi yn Aberystwyth ac Aberaeron, lle mae modd datrys y materion perygl llifogydd trwy fesurau lleol neu newid pwyslais yn lefelau presennol gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar draws gweddill yr uned bolisi. Dan Bolisi 3 mae disgwyl i gyfartaledd iawndal blynyddol gynyddu rhyw 0.82m i £1.56m.</p> <p>Rydym wedi dewis y polisi hwn ar sail y perygl o ffynonellau llifogydd mewndirol a ffynonellau llifogydd llanwol. Pe bai peryglon llifogydd llanwol yn cael eu tynnu o'r broses werthuso polisïau, mae amcangyfrifon dechreuol yn awgrymu y byddai'r polisi hwn yn aros fel Polisi 3.</p>
Cyfleoedd a chyfyngiadau dros y dalgylch i gyd	<p>Cyfleoedd:</p> <p>Lleihau perygl llifogydd yn y dyfodol trwy ysbrydoli a dylanwadu ar y broses gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd a fwriedir yn Aberystwyth ac Aberaeron ac anheddau eraill llai yn yr uned bolisi hon, er mwyn atal rhag defnyddio tir yn amhriodol yn y gorlifdir a thrwy ddefnyddio SuDS yn briodol.</p> <p>Lleihau goferiad dŵr arwyneb a cholli gwaddod yn nalgylchoedd uchaf Afon Rheidol, Afon Ystwyth, Afon Aeron ac Afon Clarach, a chadw dŵr yn well yn y dalgylchoedd isaf trwy gymhwyso cynlluniau amgylcheddol a rheoli tir, fel Tir Cynnal, Tir Gofal a Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon i'r gweithgareddau ffermio gwartheg godro yn yr uned bolisi hon.</p> <p>Dylid archwilio lleihau dŵr ffo o'r dalgylchoedd uchaf trwy weithio gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru a'i brosiect Coetiroedd Gwell i Gymru.</p> <p>Lleihau perygl llifogydd yn Aberystwyth ac Aberaeron trwy rybuddio'n well rhag llifogydd ac ymateb brys.</p> <p>Cyfyngiadau:</p> <p>Dylai amcanion rheoli perygl llifogydd ategu CRhT Canol Bae Ceredigion er y dylid nodi hefyd y gall fod angen i CRhLID ddylanwadu ar y CRhT pan fo hynny'n briodol.</p> <p>Gall dalgylchoedd arfordirol serth, sy'n gallu ymateb yn chwim i lifogydd fel Afon Rheidol, Afon Ystwyth, Afon Clarach ac Afon Aeron yn uned bolisi'r Afonydd Arfordirol Gogleddol, beri anawsterau i rai gweithgareddau rheoli perygl llifogydd. Rhaid i ni gydnabod hyn, a derbyn nad oes llawer y gallwn wneud i newid amlder neu faint llifogydd. Felly, rhaid i'n hagwedd at reoli perygl llifogydd ganolbwyntio ar leihau'r effaith.</p>

Felly, yr agwedd gyffredinol at reoli presennol o CRhT1 yw cynnal amddiffynfeydd presennol i rannau datblygedig yr arfordir ond gadael i erydiad ddal i ddigwydd fel arall.

Fodd bynnag, polisi Aber-arth yw cilio llinell bresennol yr amddiffynfa ar hyd y clogwyn deheuol ond cynnal yr amddiffynfa ger yr afon.

Mae Cynllun Rheoli Llifogydd y Dalgylch (CRhLID) ar gyfer y rhanbarth hwn yn archwilio'r peryglon llifogydd afonol. Mae CRhLID ar gyfer rhanbarth yr Afonydd Arfordirol Gogleddol yn cynnwys Afon Aeron, Afon Ystwyth, Afon Rheidol ac Afon Clarach. Mae'r cynllun hwn yn nodi mai'r prif ardaloedd sydd mewn perygl llifogydd yw Aberaeron ac Aberystwyth, heddiw ac yn y dyfodol. Y polisi dewisol yw Polisi 3; "*Parhau gyda chammau gweithredu presennol neu wahanol i reoli perygl llifogydd ar y lefel bresennol*". Mae'r CRhLID hwn yn trafod sut mae gallu gwrthsefyll llifogydd, parodrwydd ac ymwybyddiaeth yn hanfodol wrth reoli perygl llifogydd yn y trefi hyn. Yn hytrach na dim ond cynyddu uchder amddiffynfeydd i ymdopi â lefelau dŵr uwch yn y dyfodol, mae'r CRhLID yn argymhell bod y polisi'n cael ei ddefnyddio i ddargyfeirio datblygiad pellach o'r ardaloedd sydd mewn perygl.

Felly, mae rhywfaint o wahaniaeth rhwng bwriad y polisi ar sail CRhT1, ac a ddygwyd ymlaen wedyn gan y strategaeth arfordirol ar gyfer Traeth Gogleddol Aberaeron, a'r hyn sy'n cael ei gyflwyno yn y CRhLID. Caiff y ddwy agwedd eu hystyried gyda senario rheoli presennol.

Yn Nhraeth Deheuol Aberaeron y polisi presennol yw Cadw'r Llinell. Mae hyn yn dibynnu ar gynnal Pier yr Harbwr, cadw'r traeth ac amddiffyn y clogwyni ac eiddo y tu ôl. Yn ystod y ddau gyfnod cyntaf byddai hyn yn debyg iawn i'r sefyllfa sydd heddiw. Yn ystod y trydydd cyfnod, gyda chynnydd disgwylidig yn lefel y môr, byddai'r traeth yn cael ei goll wrth iddo geisio treiglo'n ôl a chael ei gyfyngu gan yr amddiffynfa i'r cefn, yn enwedig ar y pen deheuol. Byddai'r amddiffynfeydd yn cael eu gwella a byddai angen cael rhagfur mwy sylweddol, gyda phosibilrwydd effaith gynyddol ar y SoDdGA. Ni fyddai'r traeth graean yn gallu ymateb yn naturiol i amgylchiadau stormus a byddai angen cynyddu amddiffynfa'r grib yn sylweddol. Gyda'r asedau cyfyngedig sydd mewn perygl, efallai na fydd modd cyfiawnhau'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn y glannau. Byddai rhannau o'r cei deheuol y tu ôl i'r maes parcio mewn perygl o lifogydd llanwol arferol yn y tymor hwy. Byddai modd rhoi sylw i hyn trwy gynyddu uchder yr amddiffynfa yn yr ardal hon.

O fewn yr harbwr ar yr ochr ddeheuol byddai mwy o berygl methiant y mur yn y dyfodol a chaiff Gyda Rheoli Presennol ei weld fel cynnal yr amddiffynfeydd hyn a darparu amddiffyniad i'r eiddo y tu cefn i'r mur.

Y polisi a'r agwedd sy'n cael eu mabwysiadu ar hyd Traeth y Gogledd yw dal i amddiffyn



i uchder derbyniol er mwyn atal tonnau rhag torri drosodd yn ogystal â llifogydd llanwol yn ystod digwyddiadau mwy eithafol. Dangoswyd bod modd cyfiawnhau'r agwedd hon yn economaidd. Bydd hyn hefyd yn atal rhag erydiad gyda'r bwriad o gadw lefel traeth digonol. Yna mae'r brif broblem o fewn yr harbwr. I wireddu buddiannau amddiffyn yr arfordir agored, yr agwedd fyddai lleihau llifogydd o fewn yr harbwr ac i ran ogleddol y dref. Ar hyn o bryd, ac efallai yn ystod

y ddau gyfnod cyntaf, amddiffyn fyddai atal llifogydd lefel dŵr eithafol. Bydd hyn yn gofyn codi rhywfaint ar yr amddiffynfeydd yn ôl o wyneb y cei ym Mhen Cei a gwella a chynyddu uchder amddiffynfeydd o gwmpas rhannau eraill o'r harbwr, yn ôl i lawr at bont y ffordd. Wrth symud i'r trydydd cyfnod, byddai'r angen am amddiffynfa'n cynyddu fel y byddai angen cynyddu uchder amddiffynfeydd, dan bolisi CRhT1, i atal llifogydd lefel dŵr eithafol, ond hefyd i roi sylw i bosibilrwydd llifogydd ar lanwau arferol. Fe all fod angen cynyddu uchder amddiffynfeydd hefyd ar hyd glan ogleddol yr afon uwchlaw'r bont. Gallai fod angen cynyddu 1m yn uchder amddiffynfeydd ar hyd y lan i gyd dros gyfnod y CRhT.

Effaith gwahanol Senarios Cynydd yn Lefel y Môr

Gyda chynnydd mwy yn lefel y môr o 2m dros y 100 mlynedd nesaf, byddai angen cynyddu uchder amddiffynfeydd i Harbwr a glannau Aberaeron i ymdopi â lefel uwch y môr a mwy o ymosodiad tonnau ar y dref. Gall hyn ddod yn anodd ei gyflawni a chynnal cymeriad y dref ac, felly, gall dyfodol Aberaeron ddod yn fwy o fater cynllunio strategol tymor hwy yn hytrach na mater amddiffyn rhag llifogydd.

Byddai'r senario'n cadw rhai agweddau pwysig ar y dref ond byddai'n cynyddu'r perygl hirdymor na fyddai modd cynnal amddiffynfeydd yn amhenodol o fewn rheswm.

Yr awgrym yn y CRhLID yw y dylai'r pwyslais ar berygl llifogydd symud o un o gynyddu uchder amddiffynfeydd i reoli'r perygl. Mewn perthynas ag Aberaeron ni all hyn gael ei gyflawni'n rhwydd trwy reolaeth gynllunio oherwydd mai rhinwedd hanfodol y dref a'r amgylchedd adeiledig presennol yw'r union ardal sydd yn y perygl mwyaf. Ar ben hynny ni fyddai datblygu agwedd seiliedig yn unig ar egwyddorion draenio cynaliadwy'n rhoi sylw i'r llifogydd llanwol rheolaidd dan lefelau arferol y llanw. Byddai rhybuddio rhag llifogydd yr un mor aneffeithiol dan yr amgylchiadau hyn.

Adolygwyd y polisi Gyda Rheoli Presennol mewn perthynas ag Aber-arth. Yr agwedd fyddai cynnal rhyw fath o reolaeth yng ngheg yr afon, a allai gynyddu'r amddiffyniad i'r dyffryn a'r llethr arfordirol y tu ôl, ond caniatáu cilio rheoledig o linell y clogwyni tua'r de. Caiff ei ystyried yn gynaliadwy gyda chyfiawnhad gyferbyn ag amcan cynnal rhinwedd hanfodol y pentref. Byddai caniatáu erydiad y clogwyni'n gwella cyflwr y SoDdGA, heb ganiatáu i erydiad afreoledig effeithio'n ddifrifol ar y pentref. Efallai y bydd rhai eiddo rheng flaen yn dal i gael eu colli yn y pen draw wrth gyflawni hyn.

Ar hyd gweddill y lan mae rheoli'r cilio'n cael ei ystyried yn briodol. Nid oes cyfiawnhad i'w weld dros ymyriad sylweddol, ond ni fyddai'r agwedd hon yn rhwystro rhag gwneud mân waith ar y sail byddai hwn yn cael ei dynnu dros gyfnod. Byddai hyn yn gadael cyfnod i addasu. Byddai unrhyw amddiffynfa hirdymor yn cael ei gweld yn cael effaith sylweddol ar yr amrywiol ddarnau o arfordir a ddynodwyd yn SoDdGA.

4 Cymhariaeth ac Asesiad Cryno o Senarios man cychwyn.

Mae Tabl 1 yn cymharu'r iawndal economaidd a allai fod dan y ddau senario man cychwyn. Mae Tabl 2 yn rhoi cymhariaeth gryno o ran yr amcanion cyflawn seiliedig ar y materion allweddol a nodwyd yn y cyflwyniad i'r ardal arfordirol hon.

Caiff iawndal erydiad a'r rhai cysylltiedig â llifogydd eu nodi ar wahân yn Nhabl 1. Nod y tabl hwn yw dangos y difrod economaidd a allai godi oherwydd llifogydd neu erydiad. Fel y cyfryw, nid yw eiddo a allai gael ei golli yn y dyfodol oherwydd erydiad yn cael eu hepgor wrth asesu llifogydd. Yn yr un modd, eiddo a allai fod wedi colli ei holl werth oherwydd difrod llifogydd rheolaidd yn dal i gael ei gynnwys wrth asesu erydiad. Mae'n amlwg nad yw agwedd o'r fath yn cyd-fynd yn hollol ag arfarniad economaidd arferol ar lefel strategaeth neu gynllun. Fodd bynnag, mae'n cael ei ystyried yn briodol ar lefel uwch asesiad y CRhT gyda'i nod hanfodol o nodi lle all fod ffurfiau gwahanol ar berygl wrth asesu gwahanol senarios. Os oes teimlad bod hyn yn ystumio'r asesiad economaidd yn anghymesur yna caiff hyn ei nodi yn Atodiad H a'r achos economaidd yn cael ei addasu o ganlyniad.

Caiff yr asesiad o ddifrod economaidd ei wneud trwy ddefnyddio Fframwaith Cynnal Modelu a Phenderfynu (MDSF) symlach. Yn achos erydiad, mae'r offeryn hwn seiliedig ar GIS yn cymryd y pellter erydiad disgwylidig ar gyfer unrhyw ddarn o'r arfordir ar sail asesiad o'r erydiad erbyn diwedd pob cyfnod. Yna mae'n cael ei gymryd y byddai cyflymder erydu llinellol rhwng y llinellau amser hyn (e.e. byddai disgwyl i eiddo sy'n sefyll hanner ffordd rhwng llinell amser cyfnod 1 (20 mlynedd) a llinell amser cyfnod 2 (50 mlynedd) gael ei golli ymhen 35 mlynedd). Caiff pob eiddo ei ddiffinio fel pwynt unigol yn hytrach nag yn ôl ei ôl troed llawn. Ni chaiff colli mynediad neu wasanaethau ei gyfrif yn yr asesiad, er bod hyn yn cael ei drafod yn y testun pan fo'n allweddol. Yna mae'r dull MDSF yn tynnu gwybodaeth o gronfa ddata eiddo, gan roi gwybodaeth gyffredinol mewn perthynas â'r eiddo hwnnw. Caiff gwerth yr eiddo ei ostwng o ran pryd all yr eiddo hwnnw gael ei golli.

Yn achos llifogydd, caiff lefelau dŵr arfordir agored eu hasesu gyferbyn â lefelau trothwy cysylltiedig ag eiddo unigol seiliedig eto ar y gronfa ddata ffynhonnell bwynt eiddo. Ni wnaed unrhyw fodelu manwl i asesu llwybrau llifo a/neu gynnydd posibl mewn lefelau dŵr oherwydd prosesau aberol. Pan fo amddiffynfa rhag llifogydd yn methu neu'n cael ei threchu, mae'n cael ei gymryd bod yr ardal lifogydd i gyd y tu ôl i'r amddiffynfa'n agored i lifogydd ac y byddai llifogydd yn digwydd ar hyd a lled y gorlifdir, dros gyfnod penllanw unigol. Caiff iawndal ei asesu mewn perthynas â dyfnder llifogydd fyddai'n digwydd ar sail y math o eiddo a nodwyd yn y gronfa ddata. O'r asesiad hwn o ddifrod llifogydd all ddigwydd gydag unrhyw lefel dŵr penodol, caiff cyfartaledd blynyddol iawndal llifogydd ei benderfynu yn ystod pob cyfnod. Caiff cyfartaledd blynyddol gwerth difrod ei gymryd rhwng y presennol (2010) ac ymhen 50 mlynedd (2060) a rhwng 2060 a 2110. Caiff y gwerth cyfartalog hwn ei gymryd wrth benderfynu amcangyfrif o Werth Presennol (PV) iawndal gostyngol dros gyfnod y CRhT. Mae'r agwedd syml hon yn caniatáu ystyried perygl llifogydd dan wahanol ragfynegiadau cynnydd yn lefel y môr ar gyfer gwahanol senarios.

Tabl 1. Asesiad Economaidd

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o iawndal erydiad a bennwyd gan ddadansoddiad MDSF CRhT2 ar gyfer y PDZ cyfan. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad H. Pan fo astudiaethau'n darparu gwybodaeth fanylach, mae hyn yn cael ei nodi. Bwriad y tabl yw rhoi asesiad lefel uchel dechreuol o iawndal all godi dan y ddau senario man cychwyn.

. ASESIAD O IAWNDAL ERYDIAD

Cyfnod	0 – 20 mlynedd		20 – 50 mlynedd		50 – 100 mlynedd		50 – 100 mlynedd (2m o gynnydd yn lefel y môr)		Gwerth Presennol lawndal (£x1000)			
	Nifer yr eiddo:		Gwerth x £k	Nifer yr eiddo:		Gwerth x £k	Nifer yr eiddo:			Gwerth x £k		
Dim Ymyriad Gweithredol	Pres.	Masn.		Pres.	Masn.		Pres.	Masn.	Pres.		Masn.	
<i>Lleoliad</i>	<i>Pres.</i>	<i>Masn.</i>										
De Aberaeron	0	0	0	0	0	4	0	791	5	0	85	
Harbwr Aberaeron	0	0	0	1	0	149	34	7	4,588	38	7	459
Gogledd Aberaeron	0	0	0	0	0	0	24	0	2,990	28	0	277
Aber-arth	0	0	0	0	0	0	5	0	655	12	0	66
Llan-non i Lanrhystud	0	0	0	0	0	0	1	1	199	0	1	10
Cyfanswm PDZ1												
Gyda Rheoli Presennol	Nifer yr eiddo:		Gwerth x £k	Nifer yr eiddo:		Gwerth x £k	Nifer yr eiddo:		Gwerth x £k	Nifer yr eiddo		Gwerth Presennol lawndal (£x1000)
<i>Lleoliad</i>	Pres.	Masn.		Pres.	Masn.		Pres.	Masn.		Pres.	Masn.	
De Aberaeron	0	0	0	0	0	0	4	0	791	5	0	85
Harbwr Aberaeron	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gogledd Aberaeron	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Aber-arth	0	0	0	0	0	0	2	0	229	2	0	22
Llan-non i Lanrhystud	0	0	0	0	0	0	1	1	199	0	1	10
Cyfanswm PDZ1												
Nodiadau: Pennwyd gwerth presennol iawndal ar gyfer 1m o gynnydd yn lefel y môr mewn 100 mlynedd.												
Gwybodaeth arall: Gallai ansadrwydd llethrau lleol a cholli gwasanaethau arwain at golli eiddo'n gynharach, gan gynyddu iawndal yn sylweddol.												

Pennwyd yr iawndal llifogydd canlynol trwy ddefnyddio MDSF. Amcan y ffigurau hyn yw nodi maint ac effaith perygl llifogydd yn hytrach na bod yn arfarniad economaidd manwl. Mewn llawer o ardaloedd byddai niferoedd sylweddol o eiddo'n agored i lifogydd gyda'r digwyddiadau amlach dan Dim Ymyriad Gweithredol a Gyda Rheoli Presennol, caniatawyd gwerth enwol colled ulw yn y tabl ar gyfer eiddo mewn perygl aml; nid yw hyn yn gyffredinol yn cynnwys gwerthoedd mewn perygl ar hyn o bryd ar gyfer y digwyddiad 1:1 flwyddyn, ymhen 50 mlynedd ar gyfer y digwyddiad 1:10 mlynedd ac ymhen 100 mlynedd ar gyfer y digwyddiad 1:50 mlynedd.

ASESIAD O BERYGL LLIFOGYDD

Dim Ymyriad Gweithredol	Perygl llifogydd llanwol 2010			Perygl llifogydd llanwol 2060			Perygl llifogydd llanwol 2110			perygl llanwol 2m o gynnydd yn lefel y môr		Gwerth Presennol lawndal (£x1000)
	Nifer yr eiddo		AAD x £k	Nifer yr eiddo		AAD x £k	Nifer yr eiddo		AAD x £k	Nifer yr eiddo		
	<1:10 ml.	>1:10 ml.		<1:10 ml.	>1:10 ml.		<1:10 ml.	>1:10 ml.		<1:10 ml.	>1:10 ml.	
<i>Lleoliad</i>												
Aberaeron (De-orllewin)	0	1	0.46	0	1	3	0	6	24	1	15	107
Aberaeron (Gogledd-ddwyrain)	0	210	105	0	250	584	0	338	5385	199	220	23839
Aber-arth	0	1	0.01	0	2	0.18	2	2	20	1	7	63
Llan-non	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0
Llanrhystud	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0
Cyfanswm PDZ8											24,009	
Gyda Rheoli Presennol	Nifer yr eiddo		AAD x £k	Nifer yr eiddo		AAD x £k	Nifer yr eiddo		AAD x £k	Nifer yr eiddo		Gwerth Presennol lawndal (£x1000)
<i>Lleoliad</i>	<1:10 ml.	>1:10 ml.		<1:10 ml.	>1:10 ml.		<1:10 ml.	>1:10 ml.		<1:10 ml.	>1:10 ml.	
Aberaeron (De-orllewin)	0	1	0.26	0	1	0.35	0	6	0.84	0	16	10
Aberaeron (Gogledd-ddwyrain)	0	210	55	0	250	69	0	338	104	0	419	1927
Aber-arth	0	1	0.01	0	2	0.18	2	2	20	4	4	63
Llan-non	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0
Llanrhystud	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0
Cyfanswm PDZ8											2001	

Tabl 2. Aseiad Cyffredinol o Amcanion

Mae'r tabl canlynol yn rhoi aseiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi aseiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

AMCAN RHANDEILIAD	NAI			WPM		
	Methu	Diduedd	Derbyniol	Methu	Diduedd	Derbyniol
Lleihau perygl i fywyd.						
Amddiffyn eiddo rhag colled trwy lifogydd ac erydiad.						
Lleihau cymaint â phosibl yr angen i gynyddu ymdrech a rheoli amddiffynfeydd arfordirol.						
Osgoi dibynnu ar amddiffyniad yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus neu newid defnydd annisgwyl.						
Cynnal mynediad i'r cymunedau a phentrefi.						
Cynnal Aberaeron fel canolfan ranbarthol y cymunedau.						
Cynnal defnydd adloniadol o'r traethau						
Cynnal mynediad at yr arfordir gan gynnwys parcio ar gyfer ceir a chyfleusterau.						
Cynnal mynediad ar gyfer defnyddio cychod ac adloniant cysylltiedig						
Cynnal Aberaeron fel canolfan fasnachol hyfyw a chefnogi cyfleoedd adfywio						
Cynnal defnydd a datblygiad Harbwr Aberaeron.						
Cynnal cymeriad a chyfanrwydd cymunedau arfordirol.						
Cynnal gwerth amaethyddol y gymuned wledig						
Nodi perygl a lleihau perygl colli nodweddion treftadaeth lle bo modd.						
Cynnal tirwedd hanesyddol.						
Atal dirywiad neu darfu ar safleoedd hanesyddol a'u hamgylchedd.						
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig rhyngwladol (ACA, AGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.						
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig cenedlaethol (SoDdGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.						
Cynnal a gwella dealltwriaeth addysgol a gwyddonol o ddaeareg a geomorffoleg.						
Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella.						
Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau.						

AMCAN RHANDDEILIAD	NAI			WPM		
	Methu	Diduedd	Derbyniol	Methu	Diduedd	Derbyniol
Cynnal mynediad i'r aneddiadau mwy ar gyfer cymunedau amaethyddol llai						
Cynnal llwybr cludiant rhanbarthol						

5 Trafodaeth a Datblygu Polisi Manwl


Ar hyd llawer o'r arfordir i'r gogledd, mae'r agwedd yn CRhT1 yn ymddangos yn briodol. Byddai angen newid rhywfaint ar y pwyslais, gan fod CRhT1, wrth edrych dros gyfnod o 50 mlynedd yn unig, yn rhagweld y gallai rheoli preifat lleol fod yn gynaliadwy. Gyda dealltwriaeth bresennol o gynnydd yn lefel y môr a phwysau cynyddol hyn ar yr arfordir, mae'n cael ei ystyried erbyn hyn na fydd rheoli lleol o'r fath yn hollol effeithiol yn y dyfodol. Y newid pwyslais, felly, yw na ddylid caniatáu rheoli preifat heblaw i'r fath raddau na fyddai'n arwain at ymdrech amddiffyn fythol gynyddol ac na ddylid ei wneud ond fel dull o ganiatáu addasu trefnus. Mewn gwirionedd, nid yw hyn yn anghyson â'r agweddau lleol a gymrwyd ar hyn o bryd yn ôl pob golwg. Wrth i erydiad gynyddu y byddai angen gorfodi Adlinio Rheoledig (a chilio rheoledig go iawn yn yr achos hwn) trwy ganiatâd cynllunio a gwarchod yr arfordir.

Yn Aber-arth, byddai agwedd Adlinio Rheoledig yn cael ei ystyried yn briodol yn yr un modd. Yma, fodd bynnag, byddai'r agwedd yn un llawer mwy o reoli llinell newydd ar gyfer dal i amddiffyn. Byddai angen datblygu mwy ar fanylion y dull gweithredu. Y cysyniad a bwriad sylfaenol fyddai ailosod neu atgyfnerthu'r grwyn preseb presennol yn y fath ffordd ag i roi amddiffyniad sylfaenol i geg Afon Arth. Byddai hyn yn sicrhau cyfle i reoli'r materion llifogydd lleol o fewn y dyffryn a rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd i'r llethr arfordirol yn rhan ogleddol y pentref. Byddai hyn yn cynorthwyo diogelu'r ffordd. Byddai'r rheolaeth hon yn cynorthwyo cadw gwaddod i'r de o Afon Arth, i bob diben yn atgyfnerthu'r blaendraeth uchel naturiol yn y geg, sy'n rheoli llinell gyffredinol yr arfordir ar hyn o bryd. Wrth roi hyn o reolaeth, byddai'r amddiffynfeydd i flaen y clogwyn deheuol yn cael dirywio yn ystod y ddau gyfnod cyntaf gyda'r bwriad hirdymor o adael i'r clogwyn erydu. Mae hyn yn gwneud defnydd effeithiol o'r glustogfa sydd ar hyn o bryd y tu ôl i'r amddiffynfeydd presennol, wrth ddal i gynnal amddiffynfa naturiol dda o raeau. Byddai manylion yr adlinio hwn yn gorfod cael eu hystyried gyda'r gymuned leol. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai angen colli eiddo i greu digon o led i sefydlu llinell gynaliadwy o amddiffynfa naturiol.

Yn Aberaeron mae problem fawr y darn hwn o arfordir. Caiff Dim Ymyriad Gweithredol ei wrthod. Canlyniad peidio ag amddiffyn yw colli'r dref a'r harbwr i bob diben. Nodwyd tref Aberaeron fel un hanfodol i ffyniant y rhanbarth.

Yr anhawster, fel yr amlygwyd yn yr asesiad uchod, yw sut i gynnal Aberaeron heb greu'r fath ddibyniaeth ar amddiffynfeydd, yn y pen draw, fel bod pobl a'r gwerthoedd a briodolwyd i Aberaeron mewn perygl o fethiant dirybudd dan amgylchiadau eithafol.

**Senario 2m SLR – yn dangos
ardaloedd MHWS a pherygl
llifogydd 1:10 mlynedd.**



Hefyd mae mater y byddai ardaloedd hanfodol o'r dref, yn y trydydd cyfnod, o fewn yr ardal lle mae perygl llifogydd hyd yn oed gyda llifogydd llanwol arferol. Daw'r mater hwn yn fwy amlwg fyth, gyda rhagolygon mwy difrifol o gynnydd yn lefel y môr dros y 100 mlynedd nesaf (gyda senario cynnydd o 2m yn lefel y môr), gan y

byddai llawer o ran ogleddol y dref o fewn y parth perygl llifogydd llanwau arferol hwn.

Ar hyn o bryd, caiff rheoli'r arfordir agored ei ystyried yn hanfodol. Byddai hyn yn atal colled trwy erydiad ac yn amddiffyn yn erbyn y tonnau'n torri drosodd yn ddifrifol a fyddai fel arall yn dinistrio darnau sylweddol o ran ogleddol y dref. O ran perygl llifogydd yn deillio o ardal yr harbwr, mae disgwyliad rhesymol y byddai modd cynnal amddiffynfa o fewn yr harbwr dros y 100 mlynedd nesaf dan y cynnydd disgwylidig o 1m yn lefel y môr. Fodd bynnag, caiff hyn ei weld fel trothwy eithaf allweddol. Byddai angen cynyddu uchder amddiffynfeydd llifogydd 1m i bob diben dros flaen yr harbwr i gyd ac o gwmpas y trothwy hwn y byddai'r perygl yn newid o reoli digwyddiadau eithafol i amddiffyn yn erbyn llanwau arferol bob dydd. Tu hwnt i'r trothwy 1m, byddai angen i amddiffynfa gynnwys rheoli posibilrwydd llifogydd dŵr codi a byddai'r perygl i fywyd ac eiddo'n cynyddu'n sylweddol. Yn dechnegol byddai modd gwneud hyn. Fodd bynnag, byddai'r effaith ar ddefnyddio'r harbwr ac ar y dirwedd adeiledig gymaint ag i newid union natur Aberaeron.

Tu hwnt i'r 100 mlynedd, felly, nid yw dechrau trwy ymateb yn unig i gynnydd yn lefel y môr yn cael ei ystyried yn gynaliadwy. (Gyda senario cynnydd o 2m yn lefel y môr, gellid cyrraedd y trothwy hwn ymhen 75 mlynedd). Felly, mae'n cael ei ystyried yn debygol y tu hwnt i'r gorwel 100 (neu 75) mlynedd y byddai angen newid sylweddol. Yna gallai hyn ofyn cael agwedd newydd at reoli ymyl yr arfordir a derbyn y byddai angen ailgynllunio glan y môr i gyd ac ardal yr harbwr. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i gylich gwaith y CRhT wrth ddiffinio polisi, ac mae'n gofyn dadansoddiad llawer mwy manwl o ran agwedd gyfun at gynllunio gofodol, yn ymgorffori rheoli perygl llifogydd. Felly, y polisi a ddiffiniwyd ar gyfer yr ardal yw Cadw'r Llinell a safon yr amddiffynfa dros y 100 mlynedd nesaf, yn dibynnu ar union faint cynnydd yn lefel y môr, ond gyda'r cafeat ei bod yn debygol y bydd angen newid sylweddol yn y tymor hwy.

Yna mae hyn yn adlewyrchu ar reoli rhan ddeheuol Aberaeron. Dros y tymor byr i ganolig byddai'r Traeth Deheuol yn dal i gael ei amddiffyn fel y mae ar hyn o bryd. Yn y trydydd cyfnod, mae'n annhebygol y byddai modd cyfiawnhau cynnal amddiffynfa ym mhen deheuol y lan. Byddai'n briodol cynnal Pier yr Harbwr er mwyn sicrhau na fyddai'r môr yn torri trwedd i'r harbwr ac i ganiatáu mordwyo hanfodol i'r harbwr. Byddai hyn yn cadw traeth sylweddol tua'r de ac yn darparu'r rheolaeth sylfaenol wrth reoli polisi o Adlinio Rheoledig dros weddill y lan. Gall hyn beri colli ambell eiddo y tu cefn i'r glannau. Hyd yn oed heddiw, ychydig o waddod sy'n cael ei gludo ar hyd y draethlin uchaf ac nid yw cadw gwaddod i'r de o'r pier yn cael ei ystyried yn hanfodol i reoli Traeth Gogleddol Aberaeron.

Yn y pen draw, o dderbyn y cafeat mewn cysylltiad â rheoli rhan ogleddol Aberaeron, byddai angen ystyried eto a fyddai modd cynnal Pier yr Harbwr, neu a ddylid ei gadw yn ei sefyllfa bresennol. Byddai angen ystyried hyn ochr yn ochr ag unrhyw ailgynllunio o'r ardal gyfan.

Mae'r CRhT yn tynnu sylw at yr angen tebygol am newid enfawr yn yr agwedd at reoli Aberaeron i gyd yn y dyfodol, os yw dealltwriaeth bresennol o gynnydd yn lefel y môr yn datblygu fel y rhagwelwyd. Bydd yr angen hwn i newid yn dod yn fwy amlwg wrth gadw golwg ar gynnydd yn lefel y môr dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n bwysig bod gwerthoedd presennol y dref yn cael eu rheoli mewn ffordd nad yw'n achub y blaen yn rhy gynnar ar newid yn y dyfodol, ond hefyd nad yw mesurau rheoli heddiw'n atal cyfle i newid rhag digwydd mewn ffordd gynaliadwy, os bydd angen, yn y dyfodol.

Crynodeb Rheoli

Rhannwyd yr ardal yn ddwy Ardal Reoli gyffredinol ac mae crynodeb o bolisi yn y tablau isod.

M.A.15 ABERAERON AC ABER-ARTH: O Gilfach yr Halen i Glogwyni Gogleddol Aber-arth.

Uned Bolisi		Cynllun Polisi			
		2025	2055	2105	Sylw
8.1	Gilfach yr Halen i Ben y Gloyn	DN	DN	DN	Dlogwyni diamddiffyn, heb eu datblygu ar hyn o bryd
8.2	Traeth Deheuol Aberaeron	HTL	HTL	MR	Cynnal amddiffynfeydd, ystyried adlinio pen deheuol yr amddiffynfa yn y dyfodol. Byddai rheoli hirdymor yr ardal hon yn cael ei gysylltu â rheoli hirdymor Gogledd Aberaeron.
8.3	Harbwr Aberaeron	HTL	HTL	HTL	Cynnal a chynyddu uchder amddiffynfeydd presennol dros gyfnod y CRhT. Byddai angen i reolaeth yn y dyfodol ystyried gwir bosibilrwydd newid mawr yn yr agwedd hon. Byddai'r angen am newid o'r fath yn dibynnu'n allweddol ar gyflymder cynnydd yn lefel y môr.
8.4	Traeth Gogleddol Aberaeron	HTL	HTL	HTL	Fel yr uchod
8.5	Aberaeron i Aber-arth	NAI	NAI	NAI	
8.6	Aber-arth	HTL	MR	MR	Cynnal a newid yr amddiffynfa o gwmpas ceg Afon Arth, a gadael i'r arfordir deheuol erydu yn ôl
Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol MR – Adlinio Rheoledig					

M.A.16 LLANRHYSTUD: O Ogledd Aber-arth i Llanrhystud.

Uned Bolisi		Cynllun Polisi			
		2025	2055	2105	Sylw
8.7	Gogledd Aber-arth i Forfa Mawr	NAI	NAI	NAI	Clogwyni diamddiffyn, heb eu datblygu'n caniatáu cilio'r clogwyni efallai gydag angen i symud y ffordd
8.8	Llan-non a Llansanffraid	MR	MR	MR	Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat gyda therfyn amser fel rhan o reoli cilio'r draethlin, yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.
8.9	Bae Llanrhystud	MR	MR	MR	Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat gyda therfyn amser fel rhan o reoli cilio'r draethlin, yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.
8.10	Bae Llanrhystud i Garreg Ti-pw	NAI	NAI	NAI	
Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol MR – Adlinio Rheoledig					

PDZ8

Datganiadau Ardaloedd Rheoli

MA 15 Aberaeron ac Aber-arth

Gilfach yr Halen i Glogwyni Gogleddol Aber-arth

MA 16 Bae Llanrhystud

Gogledd Aber-arth i Lanrhystud


Cyfeirnod y Lleoliad:	Aberaeron ac Aber-arth
Cyfeirnod yr Ardal Reoli:	M.A. 15
Parth Datblygu Polisi:	PDZ8

* Sylwch: Seiliwyd mapio traethlin ddisgwylidig ar gyfuniad o ddata arolygu, dadansoddi mapiau hanesyddol ac asesiad geomorffolegol gyda lwfans am gynnydd yn lefel y môr. Oherwydd ansicrwydd cynhenid rhagweld newid yn y dyfodol, mae'r rhagfynegiadau o angenrheidrwydd yn arwyddol. I'w defnyddio y tu hwnt i ddiben y cynllun rheoli traethlin, dylid cyfeirio at y data sylfaenol.

Caiff y disgrifiadau canlynol eu darparu i gynorthwyo dehongli'r map drosodd.


Sefyllfa'r draethlin ymhen 100 mlynedd:

Bwriad y mapiau canlynol yw crynhoi sefyllfa ddisgwylidig y draethlin ymhen 100 mlynedd dan ddau senario "Gyda Rheoli Presennol" a gyda'r "Polisi Dewisol Drafft" sy'n cael ei gynnig trwy'r Cynllun Rheoli Traethlin.


-  Mewn rhai ardaloedd nid yw'r polisi dewisol yn newid o'r hyn yw gyda'r rheoli presennol. Mewn rhai ardaloedd lle mae amddiffynfeydd caled mae modd nodi hyn yn fanwl gywir. Mewn cylchoedd eraill mae mwy o ansicrwydd. Serch hynny, lle bo newid fel copa clogwyn yn debygol o ddiffinio'r draethlin yn hollol amlwg caiff amcangyfrif o'r sefyllfa ei ddangos fel llinell sengl.
- Lle bo gwahaniaeth rhwng Gyda Rheoli Presennol a'r Polisi Dewisol Drafft, caiff y gwahaniaeth hwn ei wneud trwy ddangos dwy linell wahanol:

 Gyda Rheoli Presennol.
 Polisi Dewisol Drafft.

Parthau Perygl Llifogydd

 Parthau Perygl Llifogydd Cyffredinol. Caiff esboniad y parthau hyn ei ddarparu ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd www.environment-agency.gov.uk. Dengys y mapiau yn nogfen Ddrafft hon y CRhT lle gallai polisi CRhT ddylanwadu ar reoli perygl llifogydd.

 Ardaloedd lle mae polisi drafft y CRhT yn bwriadu dal i reoli'r perygl hwn.

 Ardaloedd lle byddai'r polisi'n caniatáu mwy o berygl llifogydd yn ystod y 100 mlynedd.

Dylid darllen y mapiau ar y cyd â thestun dogfen Drafft y CRhT.

Isgell Cynllun Rheoli Traethlin 9
Map Lleoliad Man Cychwyn
Ardal Reoli 13, 14 & 15

- Ardal Reoli
- Uned Bolisi
- Parth Datblygu Polisi
- Henebion Cofrestredig



- Allwedd:** Sefyllfa'r Draethlin ym mhen 100 mlynedd:
- Byddai'r Polisi Dewisol yr un â Gyda Rheoli Presennol
 - Gyda Rheoli Presennol pan fo hyn yn wahanol i'r Polisi Dewisol
 - Polisi Dewisol pan fo hyn yn wahanol i Gyda Rheoli Presennol

- Ramsar
- ACA
- AGA
- SoDdGa
- GNG

- Parth Perygl Llifogydd AA 3
- Parth Perygl Llifogydd AA 3 lle na fyddai mwy o debygolrwydd llifogydd dan bolisi Drafft y CRhT



CRYNODEB O ARGYMHELLION A CHYFIAWNHAD Y CYNLLUN DEWISOL

BWRIAD Y CYNLLUN:

Nod y cynllun yw cynnal tref Aberaeron ac ardal hanfodol ei harbwr. Bu cynllun sylweddol i wella amddiffynfa Traeth y Gogledd, gydag astudiaethau pellach yn archwilio'r angen am amddiffynfeydd gwell o fewn yr harbwr. Nod y gwaith hwn yw amddiffyn prif ardal y dref am 100 mlynedd.

Serch hynny, mae'r CRhT wedi tynnu sylw at y peryglon tymor hwy cysylltiedig â chynnydd yn lefel y môr a pherygl llifogydd i lawer o ganol y dref. Bwriad y cynllun yw cefnogi ceisio dal i amddiffyn ond mae'n cydnabod y gallai dal i gynyddu uchder yr amddiffynfa gael effeithiau andwyol ar gymeriad a defnydd yr ardal. Fel y cyfryw, mae'r cynllun yn nodi'r angen i edrych ar sut mae modd amddiffyn mewn ffordd fwy cynaliadwy, gan edrych ar fesurau gwydnwch eiddo ac edrych ar ddefnyddio'r lled o gwmpas yr harbwr i dirlunio mesurau amddiffyn. Tu hwnt i 100 mlynedd y CRhT, gallai fod mwy fyth o berygl llifogydd ac mae angen ystyried hyn yn yr agwedd heddiw at reoli perygl llifogydd.

O ran Traeth y De, byddai pwysau ychwanegol ar amddiffynfeydd. Y bwriad yn ystod y trydydd cyfnod yw adlinio amddiffynfeydd ynghyd â chynllun cyfun i ddatblygu ardal yr harbwr a mwy o berygl llifogydd yn y tymor hwy.

Yn Aber-arth, y bwriad fyddai cynnal amddiffynfeydd presennol am y tro. Yn ystod yr ail gyfnod, byddai'n dod yn fwyfwy anodd cadw'r llinell amddiffyn dros yr ardal gyfan. Mae barn ar gynnal y gymuned trwy reoli addasol yn ystod yr ail gyfnod fel bod prif ardal y pentref yn cael ei gwarchod i'r trydydd cyfnod. Byddai hyn yn canolbwyntio ar reoli o gwmpas ceg Afon Arth, gydag agwedd fwy ymaddasol rhwng y fan hon a datblygiad naturiol y draethlin tua'r de. Fe allai hyn beri colli eiddo ym mhen deheuol y pentref.

MATERION ALLWEDDOL / RISG AC ANSICRWYDD:

Mae ansicrwydd ynghylch amseriad y newidiadau arfaethedig. Hefyd mae angen ymateb manwl trefnus i newid. Bydd yn bwysig cysylltu hyn ag arolygu cenedlaethol o gynnydd yn lefel y môr a newid mwy cyffredinol yn yr hinsawdd a chadw golwg ar ymddygiad y traeth. Mae buddiannau economaidd cryf i warchod Aberaeron, ond mae'n amlwg beth all effaith yr amddiffyn fod. Yn Aber-arth nid yw'r cyfiawnhad dros amddiffyn mor amlwg ond byddai rheoli'n hanfodol i gynnal cymeriad a chyfanrwydd y pentref cyfan.

CAMAU GWEITHREDU:

CAM GWEITHREDU		PARTNERIAID	
Arolygu'r draethlin		CSC	
Cynllunio addasu		CSC	
Traeth De Aberaeron Aberarth.	Agwedd at amddiffyn Aberaeron	Cymunedau Defnyddwyr yr Harbwr	Priffyrdd
Asesu'n fanwl yr effaith all fod ar yr amgylchedd hanesyddol			
Ystyried posibilrwydd creu cynefin yn yr harbwr.		CSC	CCGC

CYFLAWNI'R CYNLLUN**CRYNODEB O BOLISI'AU PENODOL**

Uned Bolisi		Cynllun Polisi			
		2025	2055	2105	Sylw
8.1	Gilfach yr Halen i Ben y Gloyn	DN	DN	DN	Clogwyni diamddiffyn, heb eu datblygu ar hyn o bryd
8.2	Traeth Deheuol Aberaeron	HTL	HTL	MR	Cynnal amddiffynfeydd, ystyried adlinio pen deheuol yr amddiffynfa yn y dyfodol. Byddai rheoli hirdymor yr ardal hon yn cael ei gysylltu â rheoli hirdymor Gogledd Aberaeron.
8.3	Harbwr Aberaeron	HTL	HTL	HTL	Cynnal a chynyddu uchder amddiffynfeydd presennol dros gyfnod y CRhT. Byddai angen i reolaeth yn y dyfodol ystyried gwir bosibilrwydd newid mawr yn yr agwedd hon. Byddai'r angen am newid o'r fath yn dibynnu'n allweddol ar gyflymder cynnydd yn lefel y môr.
8.4	Traeth Gogleddol Aberaeron	HTL	HTL	HTL	Fel yr uchod
8.5	Aberaeron i Aber-arth	NAI	NAI	NAI	
8.6	Aber-arth	HTL	MR	MR	Cynnal a newid yr amddiffynfa o gwmpas ceg Afon Arth, a gadael i'r arfordir deheuol erydu yn ôl
Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol MR – Adlinio Rheoledig					

POLISI DEWISOL I WEITHREDU'R CYNLLUN:	
O'r presennol	Cynnal yr amddiffynfeydd presennol a datblygu strategaeth ar gyfer amddiffyn o fewn yr harbwr.
Tymor canolig	Cynnal amddiffynfeydd wrth symud tuag at reoli addasol yn Aberaeron ac addasu amddiffynfa Aber-arth.
Hirdymor	Caniatáu a rheoli adlinio amddiffynfeydd Traeth y De, yn unol â chynllunio tymor hwy ar gyfer ardal yr harbwr. Cynnal amddiffynfa ar linell newydd yn Aber-arth.

GOBLYGIADAU'R CYNLLUN

NEWIDIADAU O'R RHEOLI PRESENNOL

Byddai rheolaeth Traeth Deheuol Aberaeron yn newid o HTL i MR yn y trydydd cyfnod. Mae'r polisi adlinio yn Aber-arth fel y nodwyd yn CRhT1.

CRYNODEB ECONOMAIDD

Economeg (£k PV)	erbyn 2025	erbyn 2055	erbyn 2105	Cyfanswm PV £k
Iawndal NAI	1,325.6	966.0	18,034.7	20,326.4
Iawndal y Cynllun Dewisol	697.6	697.4	697.0	2,092.0
Buddiannau	628.0	268.6	17,337.7	18,234.3
Costau	582.9	236.6	402.5	1,222.0

RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDIAD

COLLED DEBYGOL

Mae'n debygol y bydd colled o 7 eiddo, 5 yn Nhraeth Deheuol Aberaeron a 2 yn Aber-arth, yn yr hirdymor. Mae mwy o berygl llifogydd tymor hwy i Aberaeron.

BUDDIANNAU'R CYNLLUN

Mae'r cynllun yn rhoi agwedd gynaliadwy tymor hwy at amddiffyn Aberaeron ac Aber-arth. Byddai'r cynllun yn lleihau perygl llifogydd i ryw 338 eiddo, gwasanaethau a defnydd yr harbwr. (Fodd bynnag, byddai 200 eiddo bron o fewn y parth perygl llifogydd diamddiffyn 1:10 mlynedd gyda senario cynnydd o 2m yn lefel y môr.) Mae rhyw 75 eiddo mewn perygl oherwydd erydiad. Byddai'r cynllun yn anelu at amddiffyn pob un ond 7 o'r eiddo hyn.

CRYNODEB O ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL (GAN GYNNWYS HRA)

PDZ 8				
Amcan AAS	Effaith y Polisi Dewisol ar gyfer pob Cyfnod			
	1	2	3	Lliniaru
Unedau Polisi 8.1 i 8.10				
Cynnal prosesau naturiol, cynnal a gwella cyfanwydd safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffafriol o'u nodweddion diddordeb (cynefinoedd a rhywogaethau).				
Gwarchod ac osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol a chyfoethogi'r diddordeb dynodedig lle bo hynny'n ymarferol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffafriol.				
Gwarchod ac osgoi effeithiau andwyol ar gynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol a'u cyfoethogi lle bo hynny'n ymarferol.				Creu cynefin
Cynnal prosesau naturiol a chadw datguddiadau daearegol yn holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.				
Gwarchod a chyfoethogi tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn cysylltiad â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro ag Amcanion AHNE a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau rhestredig ac asedau etifeddiaeth ddiwylliannol eraill pwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, ynghyd â'u safleoedd a'u hamgylchedd.				Cloddio a chofnodi
Lleihau effaith polisiâu ar weithrediadau a gweithgareddau morol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i isadeiledd hanfodol a chynnal gwasanaethau hanfodol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i dir amaethyddol a gweithgareddau garddwriaethol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristiaeth.				

Fe all fod cyfle i greu cynefin o fewn yr harbwr a thrwy adlinio tymor hwy.

Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o'r SEA (atodiad E) a dylid cyfeirio at yr Atodiad i gael manylion llawn yr asesiad.

Mae'r ddwy adran nesaf hyn yn rhoi crynodeb penawdau o ganfyddiadau'r HRA (Atodiad G) a'r WFA (Atodiad H). Dylid cyfeirio fel y bo'n briodol at yr Atodiadau hyn i gael manylion llawn.

CRYNODEB HRA

Mae polisi CRhT yn y PDZ hwn yn cynnwys amrywiaeth o bolisiâu ar hyd y morlin gan gynnwys NAI, HTL a MR. Mae PDZ 8 yn cynnwys nodweddion diddordeb ACA Bae Ceredigion.

- 4C7.1.1 ***Goblygiadau i gyfanwydd y safle:*** Nid yw'r amrywiol bolisiâu'n cyfyngu ar ddatblygiad cynefinoedd ACA Bae Ceredigion o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr ac, fel y cyfryw, **ni fydd effaith andwyol ar gyfanwydd yr ACA.**

CASGLIAD CRYNO O'R ASESIAD FFRAMWAITH DŴR

Mae'r asesiad isod yn berthnasol i'r ardal reoli hon ac yn tynnu sylw at effeithiau all fod ar ddarnau o'r arfordir.

Corff Dŵr (a'r Parth Datblygu Polisi perthnasol)	A gyflawnwyd yr Amcanion Amgylcheddol?				A oes angen Datganiad Cryno CFFD?	Cyflawni unrhyw rai o Fesurau Lliniaru CRhBA Gorllewin Cymru?	Manylion sut y cyflawnwyd Mesurau Lliniaru penodol CRhBA Gorllewin Cymru (gwyrdd tywyll = cyflawnwyd; gwyrdd golau = cyflawnwyd yn rhannol, coch = ni chyflawnwyd)
	CFFD1	CFFD2	CFFD3	CFFD4			
Canol Bae Ceredigion (Arfordirol) (PDZ 6, 7 ac 8) (MAN 12,13,14,15 ac 16)	Amh.	✓	✗ (PDZ 8)	✓	Oes – Efallai na fydd Amcan Amgylcheddol CFFD3 yn cael ei gyflawni oherwydd polisi CRhT yn PDZ 8 (MAN 15).	Nid oedd unrhyw fesurau perthnasol i CRhT2 ar gyfer y corff dŵr hwn.	Amh.

Mae rhagor o fanylion yr asesiad hwn yn Atodiad K gyda chrynodeb ohonynt isod.

Corff Dŵr (yn cynnwys yr Unedau Rheoli sy'n effeithio arno)	Rhestr adolygu Datganiad Cryno CFFD	Disgrifiad cryno o wneud penderfyniadau a chyfeiriad at ddogfennau eraill yn y CRhT
Canol Bae Ceredigion (Arfordirol – C4) Uned Reoli 8.3 (CFFD 3)	<p>Mesurau lliniaru: a ymgorfforwyd holl fesurau lliniaru ymarferol ym mholisiau dewisol y CRhT sy'n effeithio ar y corff dŵr hwn er mwyn lleihau'r effeithiau andwyol ar ei statws? Os na, yna rhestrwch y mesurau lliniaru a allai fod eu hangen.</p> <p>Materion eraill: A oes modd dangos nad oes unrhyw faterion gor-redol eraill y dylid eu hystyried (e.e. safleoedd dynodedig, argymhellion yr Aseiad Priodol)?</p>	<p>Mesurau lliniaru CRhBA a ymgorfforwyd ym mholisiau CRhT: Nid oedd unrhyw fesurau lliniaru yn CRhBA Gorllewin Cymru ar gyfer y corff dŵr arfordirol hwn.</p> <p>Mesurau lliniaru eraill y gellid bod eu hangen: Gwneud astudiaeth i edrych ar y dewisiadau cynllunio gofodol cyfannol i ddelio â llifogydd arfordirol ac afonol ar gyfer tref a harbwr Aberaeron. Byddai hyn yn archwilio sut i reoli'r peryglon llifogydd ac erydiad arfordirol yn fwy cynaliadwy, rhag ymyrryd â'r hydrodynameg leol a llwybrau cludo gwaddodion a chyfyngu ar geg Afon Aeron fel ei bod yn gallu addasu i gynnydd yn lefel y môr heb gloi llanwol a lleihau colled anifeiliaid di-asgwrn-cefn dyfnforol, macroffyttau a sicrhau mudo pysgod yn llwyddiannus.</p> <p>Dim ond dau ddynodiad amgylcheddol sydd yn y corff dŵr hwn, ACA Bae Aberteifi a SoDdGA Aberarth – Carreg Wylan. Nid yw'r ddau ddynodiad hyn yn ymestyn i mewn i'r harbwr, gan orffen ar ben y morglawdd gogleddol. Aseswyd effaith y polisiâu dewisol ar ACA Bae Aberteifi yn yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd, a ddaeth i gasgliad na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle.</p>


Cyfeirnod y Lleoliad:	Bae Llanrhystud
Cyfeirnod yr Ardal Reoli:	M.A. 16
Parth Datblygu Polisi:	PDZ8

* Sylwch: Seiliwyd mapio traethlin ddisgwylidig ar gyfuniad o ddata arolygu, dadansoddi mapiau hanesyddol ac asesiad geomorffolegol gyda lwfans am gynnydd yn lefel y môr. Oherwydd ansicrwydd cynhenid rhagweld newid yn y dyfodol, mae'r rhagfynegiadau o angenrheidrwydd yn arwyddol. I'w defnyddio y tu hwnt i ddiben y cynllun rheoli traethlin, dylid cyfeirio at y data sylfaenol.

Caiff y disgrifiadau canlynol eu darparu i gynorthwyo dehongli'r map drosodd.


Sefyllfa'r draethlin ymhen 100 mlynedd:

Bwriad y mapiau canlynol yw crynhoi sefyllfa ddisgwylidig y draethlin ymhen 100 mlynedd dan ddau senario "Gyda Rheoli Presennol" a gyda'r "Polisi Dewisol Drafft" sy'n cael ei gynnig trwy'r Cynllun Rheoli Traethlin.


-  Mewn rhai ardaloedd nid yw'r polisi dewisol yn newid o'r hyn yw gyda'r rheoli presennol. Mewn rhai ardaloedd lle mae amddiffynfeydd caled mae modd nodi hyn yn fanwl gywir. Mewn cylchoedd eraill mae mwy o ansicrwydd. Serch hynny, lle bo newid fel copa clogwyn yn debygol o ddiffinio'r draethlin yn hollol amlwg caiff amcangyfrif o'r sefyllfa ei ddangos fel llinell sengl.
- Lle bo gwahaniaeth rhwng Gyda Rheoli Presennol a'r Polisi Dewisol Drafft, caiff y gwahaniaeth hwn ei wneud trwy ddangos dwy linell wahanol:

 Gyda Rheoli Presennol.
 Polisi Dewisol Drafft.

Parthau Perygl Llifogydd

 Parthau Perygl Llifogydd Cyffredinol. Caiff esboniad y parthau hyn ei ddarparu ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd www.environment-agency.gov.uk. Dengys y mapiau yn nogfen Ddrafft hon y CRhT lle gallai polisi CRhT ddylanwadu ar reoli perygl llifogydd.

 Ardaloedd lle mae polisi drafft y CRhT yn bwriadu dal i reoli'r perygl hwn.

 Ardaloedd lle byddai'r polisi'n caniatáu mwy o berygl llifogydd yn ystod y 100 mlynedd.

Dylid darllen y mapiau ar y cyd â thestun dogfen Drafft y CRhT.

CRYNODEB O ARGYMHELLION A CHYFIAWNHAD Y CYNLLUN DEWISOL

BWRIAD Y CYNLLUN:

Bwriad y cynllun yw caniatáu datblygiad naturiol y draethlin yn yr ardal hon ond deall bod amddiffynfeydd preifat lleol yno ar hyn o bryd. Y cynllun, felly, yw adlinio rheoledig ac ni fyddai'n rhwystro parhad mesurau amddiffyn lleol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol. Fodd bynnag, o dderbyn nodweddion ecolegol a daearegol pwysig yr ardal rhaid i reoli o'r fath beidio ag effeithio'n sylweddol ar swyddogaeth naturiol y draethlin na chyfyngu'n barhaol ar erydiad fel bod amlygiad daearegol ffres yn cael ei atal. Mae rhannau o'r draethlin a'r gefnwlad lleol yn bwysig i adloniant a mynediad a chwaraeon dŵr. Yn cefnogi'r rhain mae atyniad naturiol y draethlin gan gynnal amrywiol agweddau twristiaeth ar yr ardal. Dylai amddiffynfeydd preifat sy'n cynnal gweithgaredd o'r fath yn lleol wneud hynny mewn ffordd sy'n ystyriol o'r defnydd hwn a'u cynllunio o ganlyniad. Byddai cyfyngiad ar ymestyn amddiffynfeydd preifat ymhellach neu uwchraddio gwaith presennol yn sylweddol.

Mae gwella amddiffynfeydd preifat yn gofyn cael caniatâd cynllunio yn ogystal â chymeradwyaeth dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau. Byddai angen i hyn ystyried yr effaith all fod ar y morlin naturiol. Gall fod yn briodol edrych ar gymeradwyaeth gyda therfyn amser ar sail asesiad o effeithiau all fod, gyda'r bwriad o osgoi difrod yn y dyfodol.

MATERION ALLWEDDOL / RISG AC ANSICRWYDD:

Mae ansicrwydd ynghylch amseriad y newidiadau arfaethedig. Hefyd mae angen ymateb manwl trefnus i newid. Bydd yn bwysig cysylltu hyn ag arolygu cenedlaethol o gynnydd yn lefel y môr a newid mwy cyffredinol yn yr hinsawdd.

CAMAU GWEITHREDU:

CAM GWEITHREDU	PARTNERIAID
Arolygu'r draethlin	CSC
Cynllunio addasu Llan-non Llanrhystud	Tirfeddianwyr CSC CCGC
Asesu'n fanwl yr effaith all fod ar yr amgylchedd hanesyddol	
Cynllunio addasu llwybr yr arfordir	CSC
Archwilio cyfleoedd i greu cynefin	CSC CCGC

CYFLAWNI'R CYNLLUN**CRYNODEB O BOLISI'AU PENODOL**

Uned Bolisi		Cynllun Polisi			
		2025	2055	2105	Sylw
8.7	Gogledd Aber-arth i Forfa Mawr	NAI	NAI	NAI	Clogwyni diamddiffyn, heb eu datblygu'n caniatáu cilio'r clogwyni efallai gydag angen i symud y ffordd
8.8	Llan-non a Llansanffraid	MR	MR	MR	Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat gyda therfyn amser fel rhan o reoli cilio'r draethlin, yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.
8.9	Bae Llanrhystud	MR	MR	MR	Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat gyda therfyn amser fel rhan o reoli cilio'r draethlin, yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.
8.10	Bae Llanrhystud i Garreg Ti-pw	NAI	NAI	NAI	
Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol MR – Adlinio Rheoledig					

POLISI DEWISOL I WEITHREDU'R CYNLLUN:	
O'r presennol	Addasu amddiffynfeydd a rheoli preifat.
Tymor canolig	Cynnal amddiffynfeydd wrth symud tuag at reoli addasol
Hirdymor	Gweithredu addasu cymunedol.

GOBLYGIADAU'R CYNLLUN

NEWIDIADAU O'R RHEOLI PRESENNOL

Dim newid sylweddol mewn agwedd.

CRYNODEB ECONOMAIDD

Economeg (£k PV)	erbyn 2025	erbyn 2055	erbyn 2105	Cyfanswm PV £k
lawndal NAI	0.0	0.0	10.0	10.0
lawndal y Cynllun Dewisol	0.0	0.0	10.0	10.0
Buddiannau	0.0	0.0	0.0	0.0
Costau	0.0	0.0	0.0	0.0

RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDIAD

COLLED DEBYGOL

Fe allai fod colled o ddau eiddo ar hyd y lan yn ystod y trydydd cyfnod.

BUDDIANNAU'R CYNLLUN

Mae'r cynllun yn cynnal datblygiad naturiol y draethlin.

CRYNODEB O ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL (GAN GYNNWYS HRA)

PDZ 8				
Amcan AAS	Effaith y Polisi Dewisol ar gyfer pob Cyfnod			
	1	2	3	Lliniaru
Unedau Polisi 8.1 i 8.10				
Cynnal prosesau naturiol, cynnal a gwella cyfanrwydd safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffafriol o'u nodweddion diddordeb (cynefinoedd a rhywogaethau).				
Gwarchod ac osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol a chyfoethogi'r diddordeb dynodedig lle bo hynny'n ymarferol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffafriol.				
Gwarchod ac osgoi effeithiau andwyol ar gynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol a'u cyfoethogi lle bo hynny'n ymarferol.				Creu cynefin
Cynnal prosesau naturiol a chadw datguddiadau daearegol yn holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.				
Gwarchod a chyfoethogi tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn cysylltiad â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro ag Amcanion AHNE a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau rhestredig ac asedau etifeddiaeth ddiwylliannol eraill pwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, ynghyd â'u safleoedd a'u hamgylchedd.				Cloddio a chofnodi
Lleihau effaith polisiâu ar weithrediadau a gweithgareddau morol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i isadeiledd hanfodol a chynnal gwasanaethau hanfodol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i dir amaethyddol a gweithgareddau garddwriaethol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristiaeth.				

Gall polisiâu NAI a MR roi cyfle i gefnogi addasu cynefinoedd a chreu cynefin.

Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o'r SEA (atodiad E) a dylid cyfeirio at yr Atodiad i gael manylion llawn yr asesiad.

Mae'r ddwy adran nesaf hyn yn rhoi crynodeb penawdau o ganfyddiadau'r HRA (Atodiad G) a'r WFA (Atodiad H). Dylid cyfeirio fel y bo'n briodol at yr Atodiadau hyn i gael manylion llawn.

CRYNODEB HRA

Mae polisi CRhT yn y PDZ hwn yn cynnwys amrywiaeth o bolisiâu ar hyd y morlin gan gynnwys NAI, HTL a MR. Mae PDZ 8 yn cynnwys nodweddion diddordeb ACA Bae Ceredigion.

- 4C7.1.2 ***Goblygiadau i gyfanwydd y safle:*** Nid yw'r amrywiol bolisiâu'n cyfyngu ar ddatblygiad cynefinoedd ACA Bae Ceredigion o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr ac, fel y cyfryw, **ni fydd effaith andwyol ar gyfanwydd yr ACA.**

CASGLIAD CRYNO O'R ASESIAD FFRAMWAITH DŴR

Mae'r asesiad isod yn berthnasol i'r ardal gyffredinol hon ond yn tynnu sylw at effeithiau all fod ar ddarnau o arfordir oddi allan i'r uned reoli hon.

Corff Dŵr (a'r Parth Datblygu Polisi perthnasol)	A gyflawnwyd yr Amcanion Amgylcheddol?				A oes angen Datganiad Cryno CFfD?	Cyflawni unrhyw rai o Fesurau Lliniaru CRhBA Gorllewin Cymru?	Manylion sut y cyflawnwyd Mesurau Lliniaru penodol CRhBA Gorllewin Cymru (gwyrdd tywyll = cyflawnwyd; gwyrdd golau = cyflawnwyd yn rhannol, coch = ni chyflawnwyd)
	CFfD1	CFfD2	CFfD3	CFfD4			
Canol Bae Ceredigion (Arfordirol) (PDZ 6, 7 ac 8) (MAN 12,13,14,15 ac 16)	Amh.	✓	✗ (PDZ 8)	✓	Oes – Efallai na fydd Amcan Amgylcheddol CFfD3 yn cael ei gyflawni oherwydd polisi CRhT yn PDZ 8 (MAN 15).	Nid oedd unrhyw fesurau perthnasol i CRhT2 ar gyfer y corff dŵr hwn.	Amh.